

Atodlen

Penderfyniadau



Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 14 Awst 2023

Gwnaeth yr Aelod Cabinet y penderfyniadau canlynol ar 14 Awst 2023. Byddant yn dod i rym ganol dydd ar 22 Awst 2023 ac eithrio unrhyw benderfyniad penodol, sy'n destun "galw i mewn" dilys.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen cais 'Galw i Mewn' yw 4.00 pm ar 21 Awst 2023.

Gellir dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud â'r broses 'Galw i Mewn' trwy'r Gwasanaethau Democraidd.

Nid yw adroddiadau sy'n ymwneud â materion staffio / adroddiadau cyfrinachol yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Cyngor fel rhan o'r prosesau ymgynghori / galw i mewn.

Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar 07/23

Cynnig Ad-drefnu Ysgolion – Ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar

Opsiynau a Ystyriwyd / Rhesymau dros y Penderfyniad

Cyfeiriodd yr adroddiad hwn at y gofyniad i symud i ymgynghoriad ffurfiol fel rhan o gynnis ad-drefnu ysgolion statudol i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o fis Medi 2024.

Er bod yr ysgol, ar hyn o bryd, yn gweithredu ar 89% o'r cyfanswm capasiti oedd ar gael, roedd disgwyl i'r galw am leoedd disgyblion gynyddu o ganlyniad i ddatblygiadau tai newydd yn yr ardal. Byddai'r lleoedd ychwanegol yn cefnogi'r galw cynyddol a fyddai'n deillio o wardiau Parc Tredegar a Maerun, Gaer a Philgwenlli y Ddinas, a byddent yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o saith mlynedd o fis Medi 2024.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru, roedd disgwyl i gynigion ad-drefnu ysgolion ddechrau gyda chyfnod o ymgynghori ffurfiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd y pecyn ymgynghori ffurfiol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y

cynnig i alluogi i bob ymgynghorai a rhanddeiliad gael gwybodaeth lawn am y cynigion ar gyfer sefydlu'r ddarpariaeth newydd hon.

Penderfyniad

Cadarnhau y gellir parhau â chynnig ad-drefnu ysgolion "i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o 420 i 525 o leoedd i ddisgyblion o fis Medi 2024".

Ymgynghoriad

Pennaeth y Gyfraith a Safonau, Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid a Phennaeth Cyllid.

Ymgynghorwyd â'r holl aelodau a rhoddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau. Mae unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb wedi hynny wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Gweithredir gan: Prif Swyddog Addysg

Amserlen Weithredu: Ar unwaith

Y CYNGHORYDD D DAVIES, AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R BLYNYDDOEDD
CYNNAR

Dyddiad: 14 Awst 2023
